**Ymateb Ysgrifenedig i Adroddiad y Pwyllgor Cynaliadwyedd ar Leihau Allyriadau Carbon gan Ddiwydiant a'r Sector Cyhoeddus**

**Mehefin 2009**

## Crynodeb Gweithredol

Mae ein Cynllun Datblygu Cynaliadwy *Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned* yn cadarnhau ein gweledigaeth am Gymru gynaliadwy, yn seiliedig ar fod Cymru'n defnyddio cyfran deg o adnoddau'r ddaear a bod ei chymdeithas yn dod yn fwy teg a chyfiawn.

Mae'n esbonio ein bwriad y dylai datblygu cynaliadwy fod yn egwyddor ganolog o drefniadaeth Llywodraeth y Cynulliad. Mae ein hagwedd tuag at y newid yn yr hinsawdd wedi'i fframio o fewn y cyd-destun hwnnw a bydd yn elfen hollbwysig o roi'r Cynllun a'n hymrwymiad i ddatblygu cynaliadwy ar waith.

Yn *Cymru'n Un*, nodir ymrwymiad Llywodraeth y Cynulliad i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr yng Nghymru.

Nodir yn Cymru'n Un:

> *"Byddwn yn anelu at sicrhau lleihad yn yr allyriadau carbon blynyddol sy'n gyfwerth â 3% y flwyddyn erbyn 2011 mewn meysydd lle mae'r pwerau wedi'u datganoli. Byddwn yn pennu targedau penodol fesul sector yn y meysydd preswyl, cyhoeddus a thrafnidiaeth. Byddwn yn cydweithio â'r diwydiannau trwm/cynhyrchu pŵer i leihau allyriadau yn y sectorau hynny".*

Mae'r targed o 3% yn berthnasol i'r allyriadau o'r fasged o chwech o nwyon tŷ gwydr.

Bydd y targed yn cynnwys allyriadau 'uniongyrchol' o nwyon tŷ gwydr o bob math ac eithrio'r rhai o ddiwydiant trwm a diwydiannau cynhyrchu pŵer, a gaiff eu diffinio'n fras fel y gweithfeydd a ddaw o dan gynllun Masnachu Allyriadau yr Undeb Ewropeaidd (EU ETS).

Mae'r allyriadau a ddaw o weithfeydd pŵer mawr yn dod o dan yr EU ETS. Fodd bynnag, oherwydd ein bod yn sylweddoli ei bod yn bwysig lleihau'r defnydd a wneir o drydan er mwyn lleihau allyriadau, byddwn hefyd yn cynnwys yr allyriadau hyn yn y targed o 3% drwy'u neilltuo i'r sawl sy'n defnyddio'r trydan.

Golyga hyn y bydd yr allyriadau uniongyrchol yn sgil trafnidiaeth, y sector preswyl, y sector cyhoeddus, gwastraff, amaethyddiaeth a newid defnydd tir yn cael eu cynnwys, ynghyd â phob allyriad o fusnesau a diwydiant nad ydynt yn dod o dan EU ETS. Hefyd, byddwn yn cynnwys yr allyriadau yn sgil defnyddio trydan ym mhob sector.

Sylweddolwn fod gan ddiwydiant a'r sector cyhoeddus rôl bwysig i'w chwarae o safbwynt lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr ac, wrth i ni ymgynghori ynghylch y *Strategaeth Newid yn yr Hinsawdd – Datganiad Polisi Lefel Uchel,* cafwyd trosolwg o'r meysydd lle gwelwyd potensial i gyflawni gostyngiadau o ran allyriadau yn y sectorau hyn. Yr ydym, erbyn hyn, yn datblygu cynigion gweithredu penodol yn y sectorau hyn a sectorau eraill er mwyn ymgynghori yn eu cylch yn ystod yr haf.

Sylweddolwn hefyd fod cyrraedd ein targedau, a sicrhau bod camau effeithiol yn cael eu cymryd o safbwynt y newid yn yr hinsawdd, yn golygu bod yn rhaid i bawb chwarae eu rhan, nid Llywodraeth y Cynulliad yn unig, ac yr ydym yn gweithio trwy Gomisiwn Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd, a chyda sectorau a sefydliadau unigol, i gefnogi camau gweithredu ledled Cymru. Sylweddolwn hefyd y bydd gan bolisïau a rhaglenni Llywodraeth y DU a'r UE rôl dyngedfennol i'w chwarae yn y broses o gyflawni ein targedau.

Mae adroddiad y Pwyllgor, a'r argymhellion sydd ynddo, yn bellgyrhaeddol ac mae goblygiadau i bortffolio bob Gweinidog bron. Mae'r ymateb a osodir allan yn adlewyrchu ymateb Llywodraeth y Cynulliad i argymhellion unigol yr Adroddiad.

Nodir isod yr Ymatebion Manwl i argymhellion yr adroddiad.

## Y prif argymhellion

***Prif Argymhelliad 1:***

Dyma argymhelliad y Pwyllgor:

1. Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru bennu targedau ar gyfer lleihau carbon yn y maes diwydiant a'r sector busnes yng Nghymru fel rhan o'i gwaith o weithredu ymrwymiad Cymru'n Un i leihau allyriadau carbon. Yn dilyn cyfnod o bum mlynedd o weithredu gwirfoddol gan y sector diwydiant a busnes yng Nghymru i gyrraedd y targedau a bennwyd ar eu cyfer, dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru weithredu rheoliadau a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i gyrraedd y targedau.

**Ymateb:** Gwrthod

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn gwrthod yr argymhelliad hwn. Mae Cynllun Masnachu Allyriadau'r Undeb Ewropeaidd (EU ETS), Cytundebau Newid yn yr Hinsawdd ac, o 2010 ymlaen, yr Ymrwymiad i Leihau Carbon (CRC), yn darparu systemau sy'n seiliedig ar y farchnad i hyrwyddo'r broses o leihau allyriadau ym maes diwydiant a busnes ledled y DU. Mae cap yr EU ETS yn rhoi terfyn cyffredinol ar allyriadau o'r gweithfeydd sy'n dod o dan y cynllun, sy'n cynrychioli dros 50% o allyriadau carbon deuocsid. Yn yr un modd, unwaith y bydd y CRC yn dechrau ei gyfnod o gapio yn 2013 bydd hefyd yn cyflwyno terfyn cyffredinol ar allyriadau.

Mae dull hwn o weithredu yn caniatáu lleihau allyriadau ar y pwynt sydd leiaf costus mewn marchnad garbon sy'n gweithredu ledled y DU (ac yn wir yr UE hefyd).

Trwy bennu targed ychwanegol i ddiwydiant a busnes, yn enwedig pe gwneid hynny'n statudol yn ôl argymhelliad y Pwyllgor, byddem yn gorfodi busnesau yng Nghymru i gyflawni gostyngiadau hyd yn oed pe bai'n fwy cost-effeithiol i leihau'r allyriadau mewn mannau eraill, a gallai cystadleurwydd fod dan fygythiad.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim, oherwydd bod yr argymhelliad yn cael ei wrthod

***Prif Argymhelliad 2:***

Dyma argymhelliad y Pwyllgor:

2. Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gynnal asesiad o'r cyfleoedd cyflogaeth a allai gael eu creu yng Nghymru drwy leihau allyriadau carbon, a dylai hynny gynnwys gwerthusiad o'r sgiliau sydd eu hangen yn y gweithlu. Dylai'r asesiad a'r gwerthusiad lywio Strategaeth Swyddi Gwyrdd Llywodraeth Cynulliad Cymru.

**Ymateb:** Derbyn mewn egwyddor

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn derbyn yr argymhelliad hwn mewn egwyddor.

Bydd y Strategaeth Swyddi Gwyrdd sydd, ar hyn o bryd, yn cael ei llunio'n derfynol yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus yn gynharach eleni, yn gosod fframwaith ar gyfer asesu a dal y cyfleoedd gwaith y gellid eu creu drwy symud tuag at economi carbon isel cynaliadwy.

Y Strategaeth Swyddi Gwyrdd fydd y strategaeth datblygu economaidd drosfwaol i Lywodraeth Cynulliad Cymru, er mwyn cyflawni economi cynaliadwy i Gymru. Mae'r Strategaeth Swyddi Gwyrdd yn rhoi cyfle i ni ymateb i'r her ddeuol o newid yn yr hinsawdd a'r sefyllfa economaidd.

Trwy'r Strategaeth Swyddi Gwyrdd, byddwn yn adnabod sut y caiff sgiliau eu darparu ar gyfer datblygu, sefydlu a gweithgynhyrchu technolegau cynaliadwy. Ar yr ochr ynni yn benodol, mae gennym Hyrwyddwr Sgiliau y Sector Ynni ac mae rhai o'r Sefydliadau Addysg Bellach yn buddsoddi mewn cyfleusterau hyfforddiant newydd fel y rhai a geir yng Ngholeg Penfro a fydd yn agor ddechrau'r haf.

Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru'n gweithio gyda phartneriaid megis Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru a'r Cynghorau Sgiliau Sector i ddatblygu'r meini prawf a'r fethodoleg er mwyn cynnal asesiad o'r cyfleoedd gwaith y gellid eu creu yng Nghymru drwy leihau allyriadau carbon.

**Goblygiadau Ariannol** – Bydd unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â chynnal yr asesiad yn dod o gyllidebau presennol

***Prif Argymhelliad 3:***

Dyma argymhelliad y Pwyllgor:

3. Bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn adolygu/adnewyddu'r strategaethau economaidd presennol er mwyn rhoi proffil uchel i'r broses o leihau allyriadau carbon a bod yn glir am y ffordd y gall weithredu fel un o egwyddorion allweddol twf economaidd cynaliadwy.

**Ymateb:** Derbyn

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn derbyn yr argymhelliad hwn.

Bydd y Strategaeth Swyddi Gwyrdd yn cyflawni elfennau allweddol o Bennod Economi Cynaliadwy y Cynllun Datblygu Cynaliadwy newydd ac, yn ei thro, bydd yn sbardun arwyddocaol i weithgarwch economaidd Llywodraeth y Cynulliad.

Gwnaeth Llywodraeth y Cynulliad ymrwymiad clir i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr yn *Cymru'n Un*. Nodir yn gwbl glir yn yr ymgynghoriad ar y *Strategaeth Newid yn yr Hinsawdd - Datganiad Polisi Lefel Uchel*, yr ymgynghoriad ar y *Strategaeth Swyddi Gwyrdd*, y *Cynllun Datblygu Cynaliadwy* newydd a'r ymgynghoriad ar y *Strategaeth Newid yn yr Hinsawdd - Rhaglen Weithredu* mai bwriad polisi datblygu economaidd Llywodraeth y Cynulliad yw cyflawni datblygiad cynaliadwy ac mae'n cydnabod pwysigrwydd lleihau allyriadau carbon.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim. Mae datblygiad Strategaeth Swyddi Gwyrdd eisoes ar waith a'r costau wedi'u hadeiladu i mewn i gyllidebau presennol.

***Prif Argymhelliad 4:***

Dyma argymhelliad y Pwyllgor:

4. Bod Llywodraeth Cynulliad Cymru i gyflwyno ad-daliadau ardrethi busnes ar raddfa symudol i fusnesau nad ydynt yn rhan o unrhyw gynlluniau masnachu carbon os ydynt yn cyrraedd lefelau cytûn o leihau allyriadau carbon neu lefelau achredu cytûn mewn cynlluniau megis Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd.

**Ymateb:** Gwrthod

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn gwrthod yr argymhelliad hwn oherwydd nad oes tystiolaeth ddigonol i ddangos y byddai'n ffordd gost effeithiol o hyrwyddo gostyngiad mewn allyriadau carbon.
Yr achos, mewn egwyddor, yw y gall ardrethi busnes fod yn gyfrwng i gymell rhai gweithgareddau, ond mae'r goblygiadau o ran costau yn sylweddol. Byddai amrywiad o 1% yn lefel y cynnydd mewn ardrethi busnes, yng Nghymru yn unig, yn golygu cost o oddeutu £8 miliwn i Lywodraeth y Cynulliad.

Heb feddu ar ddadansoddiad manwl o'r arbedion carbon a fyddai'n debygol o gael eu creu am y gwariant hwn, nid yw hyn yn rhywbeth y gall Llywodraeth y Cynulliad fynd ar ei drywydd.

**Goblygiadau Ariannol** - Dim oherwydd bod yr argymhelliad yn cael ei wrthod.

***Prif Argymhelliad 5:***

Dyma argymhelliad y Pwyllgor:

5. Bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn pennu targedau ar gyfer lleihau allyriadau carbon ar gyfer yr holl sector cyhoeddus yng Nghymru fel rhan o ymrwymiad lleihau allyriadau carbon Cymru'n Un. Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ystyried pennu'r targedau hynny yn uwch na 3% ar gyfer y sector cyhoeddus yng Nghymru.

**Ymateb:** Derbyn yn rhannol

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn derbyn yr argymhelliad hwn yn rhannol. Byddwn yn gosod targed ar gyfer allyriadau sector cyhoeddus yn unol â'r hyn a nodir yn *Cymru'n Un* ond, ar hyn o bryd, nid ydym yn gwneud penderfyniadau terfynol ynghylch y lefel y dylid pennu'r targed arni.

Yn yr ymgynghoriad ar y *Strategaeth Newid yn yr Hinsawdd – Datganiad Polisi Lefel Uchel*, cafwyd amlinelliad o'n dull arfaethedig o weithredu sef pennu targed o 3% o leihad y flwyddyn i'r sector cyhoeddus. Byddwn yn ystyried yr ymateb i'r ymgynghoriad ac argymhelliad y Pwyllgor wrth wneud penderfyniad terfynol ynghylch lefel y targed wrth gyhoeddi'r Strategaeth Newid yn yr Hinsawdd ar ei ffurf derfynol yn ddiweddarach eleni.

Byddwn hefyd yn ystyried y cyfleoedd a'r cyfyngiadau a fydd yn effeithio ar wahanol rannau o'r sector cyhoeddus o safbwynt cyflawni lefelau uwch o leihau allyriadau carbon. Er enghraifft, mewn perthynas â chynnydd yn y galw am drydan o fewn y GIG neu sialensiau arbennig yr adeiladau a berthyn i gyrff y sector cyhoeddus yn y portffolio Treftadaeth.

**Goblygiadau Ariannol** – Defnyddir cyllidebau rhaglenni presennol i ysgwyddo unrhyw gostau ychwanegol a bydd y goblygiadau ariannol yn llywio'r penderfyniadau terfynol ynghylch lefel y targed.

***Prif Argymhelliad 6:***

Dyma argymhelliad y Pwyllgor:

6. Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gydweithio’n agos â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a chyrff sector cyhoeddus eraill i lunio canllawiau ar gyfer awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus a fydd yn pennu mannau cychwyn cyffredin, casglu gwybodaeth a chyflwyno adroddiadau ar leihau allyriadau carbon er mwyn sicrhau ffordd gyson a dealladwy o gydweithio.

**Ymateb:** Derbyn

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn derbyn yr argymhelliad hwn. Bydd sicrhau gwell data am allyriadau yn bwysig o ran cynorthwyo cyrff i dargedu camau gweithredu a mesur y cynnydd; a bydd yn fuddiol cyflawni mwy o gysondeb ar draws cyrff a rhannu arfer dda.

Bydd Llywodraeth y DU yn cyhoeddi canllawiau, yn unol â gofynion adran 83 Deddf Newid yn yr Hinsawdd 2008, i osod allan modd i gyrff adrodd ar allyriadau mewn ffordd gyson. Bydd y canllawiau yn goleuo dull Llywodraeth y Cynulliad o weithredu.

**Goblygiadau Ariannol** – Gellir defnyddio cyllidebau presennol ar gyfer unrhyw gostau ychwanegol.

***Prif Argymhelliad 7:***

Dyma argymhelliad y Pwyllgor:

7. Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ystyried sicrhau mwy o arian i gyrff cyhoeddus priodol er mwyn rhoi hwb cychwynnol i raglenni cyfalaf ar gyfer lleihau allyriadau carbon. Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gytuno ar raglen i wneud iawn am yr arian cyfalaf drwy arbedion dilynol mewn biliau ynni (gan ystyried newidiadau sylweddol i bisiau tanwydd) pan roddir yr arian.

**Ymateb:** Derbyn mewn egwyddor

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn derbyn yr argymhelliad hwn mewn egwyddor. Mae’r *Cynllun Cenedlaethol Effeithlonrwydd ac Arbed Ynni* yn nodi ein bwriad i ddatblygu benthyciadau buddsoddi i arbed sy’n canolbwyntio ar effeithlonrwydd ynni a lleihau allyriadau carbon fel rhan o’r ymgynghori ar y *Strategaeth Newid yn yr Hinsawdd - Rhaglen Weithredu*.

Caiff manylion y dull gweithredu eu cadarnhau yn dilyn yr ymgynghoriad.

Mae'r gronfa Buddsoddi i Arbed, a gyhoeddwyd yn ddiweddar, wedi'i chynllunio i gyflawni arbedion sy'n rhyddhau arian parod gan gyrff y sector cyhoeddus.

**Goblygiadau Ariannol:** Ceir goblygiadau ariannol yn sgil darparu cyllid i roi hwb cychwynnol i raglenni cyfalaf. Gall y rhaglen fenthyciadau arfaethedig i gynnig benthyciadau buddsoddi i arbed ar gyfer effeithlonrwydd ynni a lleihau allyriadau carbon ddod o gyllidebau presennol.

***Prif Argymhelliad 8:***

Dyma argymhelliad y Pwyllgor:

8. Bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn adolygu a diwygio'r holl dargedau a bennwyd ar gyfer cyrff cyhoeddus yng Nghymru, yn ôl y gofyn, er mwyn sicrhau eu bod yn gyson â'r targedau lleihau allyriadau carbon.

**Ymateb:** Derbyn mewn egwyddor

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn derbyn yr argymhelliad hwn mewn egwyddor. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn cefnogi'r egwyddor sydd wraidd yr argymhelliad – hynny yw, sicrhau bod ein prosesau yn helpu i sbarduno'r broses o leihau allyriadau.

Yr ydym yn awyddus i osgoi sefyllfa lle mae'r targedau a osodwn am resymau polisi eraill yn darparu cymhelliant, yn anfwriadol, i gynyddu allyriadau nwyon tŷ gwydr. Byddwn yn ystyried y risg hon a ffyrdd o'i hosgoi fel rhan o'r broses o bennu targedau newydd i gyrff cyhoeddus neu wrth adolygu a diweddaru targedau cyfredol.

Nid ydym wedi derbyn yr argymhelliad hwn yn ei gyfanrwydd oherwydd nad ydym yn ystyried y byddai adolygu'r holl dargedau ar raddfa eang yn ddefnydd effeithiol o adnoddau a byddai angen i ni hefyd asesu'r goblygiadau ehangach o newid targedau y mae corff sector cyhoeddus wedi bod yn gweithio atynt.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim, oherwydd ein bod yn bwriadu asesu targedau mewn perthynas â lleihau allyriadau fel rhan o adolygiadau ehangach o'r targedau i gyrff cyhoeddus. Gall y costau hyn ddod o gyllidebau presennol.

## Lleihau allyriadau carbon gan ddiwydiant

***Argymhelliad 1:***

Dyma argymhelliad y Pwyllgor:

1. Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru sicrhau bod digon o gymorth, gan gynnwys cymhellion ariannol a chyngor ar gael i alluogi'r technolegau

carbon isel a gaiff eu datblygu gan sefydliadau megis y Sefydliad Ymchwil Carbon Isel yng Nghymru i'w gweithgynhyrchu a'u marchnata o Gymru.

**Ymateb**: Derbyn mewn egwyddor

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn cefnogi'r egwyddor sydd wrth wraidd yr argymhelliad a bydd yn ymchwilio i weld sut y gellid cyflawni'r argymhelliad ac ystyried y goblygiadau.

Mae'r mater hwn wedi'i nodi yn ein Strategaeth Swyddi Gwyrdd a bydd Adran yr Economi a Thrafnidiaeth yn edrych arno ac yn ei ddatblygu, gan weithio gydag eraill fel rhan o'i gweithredu.

Er y dylem gynyddu'r cyfleoedd i fusnesau yng Nghymru, dylem hefyd fod yn ymwybodol o'r cyfleoedd ehangach i fasnacheiddio'r technolegau hyn. Fodd bynnag, ceir diffyg cyfatebiaeth weithiau rhwng y dechnoleg a ddatblygir yng Nghymru a'r cwmnïau yng Nghymru sydd â'r gallu i'w masnacheiddio.

**Goblygiadau Ariannol** – Gellir defnyddio cyllidebau presennol ar gyfer unrhyw gostau ychwanegol.

***Argymhelliad 2***

Dyma argymhelliad y Pwyllgor:

2. Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru bennu targedau ar gyfer y ganran o dechnolegau carbon isel a gaiff eu datblygu gan sefydliadau megis y Sefydliad Ymchwil Carbon Isel yng Nghymru sydd wedyn yn cael eu gweithgynhyrchu yng Nghymru a dylid defnyddio cynlluniau cymhellol er mwyn gallu cyflawni'r targedau hynny.

**Ymateb:** Gwrthod

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn gwrthod yr argymhelliad hwn fel ag y mae. Er ein bod yn cefnogi'r bwriad sydd wrth wraidd yr argymhelliad, byddai'n rhaid i ni ystyried yn ofalus iawn a fyddai cynnig cymhellion i weithgynhyrchu cynnyrch penodol yng Nghymru yn dderbyniol o dan reolau Cymorth Gwladwriaethol.

Yr ydym am i'r technolegau gorau gael eu datblygu yng Nghymru ac yr ydym am i Gymru ddatblygu'r technolegau gorau yn ein hymateb i'r newid yn yr hinsawdd. Credwn y bydd technolegau o Gymru'n cystadlu gyda'r gorau yn ôl teilyngdod, ond fod rhagoriaeth mewn Ymchwil a Datblygu, diwylliant cryf o arloesi ac entrepreneuriaeth a phartneriaeth rymus rhwng ymchwil, llywodraeth a busnes yn allweddol i lwyddiant.

Mae sawl risg ynghlwm wrth geisio trefnu marchnad a fydd yn ffafrio technolegau neu gynhyrchwyr penodol, gan gynnwys: ymateb aneffeithiol neu

ddrud i'r newid yn yr hinsawdd yng Nghymru; camliwio'r arwyddion a anfonir gan farchnadoedd rhyngwladol i gwmnïau technoleg yng Nghymru; gweithredu cilyddol sy'n gweithio yn erbyn Cymru ar raddfa ryngwladol, a sialensiau dan Reolau Cymorth Gwladwriaethol.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim, oherwydd bod yr argymhelliad yn cael ei wrthod.

***Argymhelliad 3***

Dyma argymhelliad y Pwyllgor:

3. Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru weithio mewn partneriaeth â'r sectorau addysg uwch ac addysg bellach, y cynghorau sgiliau sector, cyrff datblygu proffesiynol ac ysgolion a cholegau i sicrhau bod yr hyfforddiant a'r sgiliau priodol ar gael i ddiwallu anghenion y cwmnïau sy'n datblygu yn y farchnad technoleg carbon isel fel rhan o'i Strategaeth Swyddi Gwyrdd.

**Ymateb:** Derbyn

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn derbyn yr argymhelliad hwn. Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid megis Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru a'r Cynghorau Sgiliau Sector i ddatblygu'r meini prawf a'r fethodoleg i ymgymryd ag asesiad o'r cyfleoedd cyflogaeth y gellid eu creu yng Nghymru drwy leihau allyriadau carbon.

Fodd bynnag, bydd yn rhaid wrth drafodaethau ar lefel y DU er mwyn ymgorffori sgiliau carbon-isel mewn fframweithiau prentisiaeth a chymwysterau cenedlaethol. Dylem nodi hefyd y bydd y ddarpariaeth yn dibynnu hefyd ar y galw o du cyflogwyr a dysgwyr. Heb y rheiny ni all darparwyr gynnig y cyrsiau mewn modd economaidd.

Yn ein strategaeth sgiliau a chyflogaeth, '*Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru'*, ceir disgrifiad o'r modd yr ydym yn gweithio i integreiddio'r gwahanol ddulliau yng nghyswllt sgiliau, cyflogaeth a datblygu busnes. Yr ydym yn cynnal ac yn datblygu proses o recriwtio prentisiaid er mwyn sicrhau fod pobl ifanc sy'n gadael yr ysgol neu'r coleg yn gallu cael hyfforddiant o ansawdd da. Byddwn yn parhau i drafod ymhellach gyda Llywodraeth y DU ynghylch ymgorffori sgiliau carbon-isel mewn prentisiaethau a chymwysterau cenedlaethol.

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn cydnabod hefyd fod sgiliau da yn datblygu'n gynnar, a dyna pam ei bod wedi sicrhau fod y cwricwlwm ysgolion yn darparu'r addysg a'r cymhwyster i gefnogi'r agenda newid yn yr hinsawdd.

**Goblygiadau Ariannol** – Gellir defnyddio cyllidebau presennol ar gyfer unrhyw gostau ychwanegol.

***Argymhelliad 4***

Dyma argymhelliad y Pwyllgor:

4. Ni ddylai unrhyw dargedau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer lleihau allyriadau carbon mewn diwydiant gosbi'r rhai sy'n mabwysiadu'r amcanion yn gynnar naill ai drwy bennu targedau afrealistig na allant eu cyrraedd oherwydd yr arbedion a wnaethant eisoes nac wrth gynnig cymhelliant am leihau allyriadau carbon na fydd ar gael iddynt.

**Ymateb:** Derbyn

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn derbyn yr argymhelliad hwn a byddai unrhyw dargedau a bennir wedi'u cynllunio i osgoi cosbi'r rhai sy'n mabwysiadu'r amcanion yn gynnar ac osgoi creu cymhellion gwrthnysig.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim, nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn gysylltiedig â'r argymhelliad hwn.

***Argymhelliad 5***

Dyma argymhelliad y Pwyllgor:

5. Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru annog Llywodraeth y DU i gefnogi'r gwelliannau arfaethedig i drydydd cam EUETS er mwyn cysylltu targedau gwlad a sector â thargedau allyriadau cyffredinol yr UE.

**Ymateb:** Derbyn

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn derbyn yr argymhelliad hwn. Mae Llywodraeth y Cynulliad a Llywodraeth y DU wedi cefnogi'r cam o fabwysiadu cap ledled yr UE ar allyriadau ar gyfer Rhan III o'r cynllun.

Bydd cap canolog yn sicrhau dull cyson o weithredu ledled yr UE, yn hytrach na dibynnu ar Gynlluniau Dyrannu Cenedlaethol yr Aelod-Wladwriaethau unigol. Bydd hyn yn rhoi sicrwydd ynghylch lefel y lleihad mewn allyriadau a gyflawnir dan y cynllun. Bydd gostyngiad o 1.74% y flwyddyn yn y cap, gan gyflawni lleihad at ei gilydd o 21% yn is nag allyriadau 2005 a gadarnhawyd, erbyn 2012.

Cytunodd arweinwyr yr UE hefyd i Benderfyniad Rhannu Ymdrechion, sy'n gosod targedau i Aelod-Wladwriaethau ar gyfer gostyngiadau yn y sectorau hynny o'u heconomïau na ddônt o dan yr EU ETS, sef preswyl a thrafnidiaeth yn bennaf. Caiff yr ymdrech tuag at darged yr UE ei rhannu rhwng yr Aelod-Wladwriaethau yn unol â'r CMC y pen. Yn achos y DU, mae hyn yn cyfateb i leihad o 16% dros lefel 2005 erbyn 2020. Mae'r Penderfyniad Rhannu Ymdrechion yn rhoi i bob Aelod-Wladwriaeth daflwybr gorfodol blynyddol caeth tuag at eu targed ar gyfer 2020.

Mater i'r Aelod-Wladwriaethau yw gosod allan y mesurau polisi a ddefnyddiant i gyrraedd eu targedau, a gaiff eu cyflawni yn y DU drwy weithredu'r Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd, y Ddeddf Ynni a'r Strategaeth Ynni Adnewyddadwy.

Gwnaethom gyhoeddi cam cyntaf yr ymgynghoriad ar ein Strategaeth Newid yn yr Hinsawdd yn gynharach eleni ac, yn y man, byddwn yn cyhoeddi ail ymgynghoriad ar ein rhaglen o gamau gweithredu ar gyfer cyrraedd ein targedau.

Mae'r DU yn cyd-drafod ar raddfa ryngwladol ynghylch y Newid yn yr Hinsawdd fel rhan o'r UE ac, fel yn achos Protocol Kyoto, disgwylia gytuno i dargedau lleihau allyriadau o dan unrhyw gytundeb rhyngwladol ar lefel Ewropeaidd fel rhan o drefniadau'r UE i rannu'r targed.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim, nid oes unrhyw oblygiadau ariannol ynghlwm wrth yr argymhelliad hwn.

***Argymhelliad 6***

Dyma argymhelliad y Pwyllgor:

6. Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gomisiynu gwaith ymchwil er mwyn canfod tystiolaeth ar gyfer sefydlu cynllun masnachu allyriadau yng Nghymru erbyn diwedd 2009 drwy'r pwerau a roddir iddi o dan Adran 47 o Ddeddf Newid Hinsawdd 2008. Y bwriad fydd defnyddio'r cynllun i gyfrannu at gyrraedd targedau cenedlaethol, targedau'r DU a thargedau'r UE.

**Ymateb:** Gwrthod

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn gwrthod yr argymhelliad hwn oherwydd ei fod yn gynamserol. Nid yw'r Ymrwymiad i Leihau Carbon (CRC) wedi'i gyflwyno eto ac mae angen i ni sicrhau gwell dealltwriaeth o'i weithrediad cyn ystyried datblygu cynllun masnachu ychwanegol.

Er mwyn bod yn effeithiol, mae angen i gynllun masnachu gael marchnad ddigon rhydd i gynhyrchu pris carbon priodol a sicrhau y cedwir costau cydymffurfio yn isel.

Nid yw'n glir fod bwlch ar gyfer cynllun masnachu ychwanegol i sefyll ochr yn ochr â Chynllun Masnachu Allyriadau'r UE, y CRC a'r Cytundebau Newid yn yr Hinsawdd. Bydd yr allyrwyr, y cynhyrchwyr trydan a'r defnyddwyr ynni mwyaf yn cael eu dal gan un o'r offerynnau hynny a thra bydd rhai busnesau a chyrff yn dod y tu allan i'w cwmpas, maent yn debygol o fod yn gyfrifol am lefelau llawer is o allyriadau yn unigol, ac mae'n annhebygol mai cynllun masnachu fydd yr offeryn cywir i'w ddefnyddio i ymdrin â'r allyriadau hynny.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim, oherwydd bod yr argymhelliad yn cael ei wrthod.

### *Argymhelliad* 7

Dyma argymhelliad y Pwyllgor:

7. Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ddefnyddio'r pwerau a roddir iddi o dan Adran 4 o Ddeddf Newid Hinsawdd 2008 er mwyn ei gwneud yn orfodol i bob busnes nad yw'n rhan o unrhyw gynllun masnachu cenedlaethol bennu man cychwyn ar gyfer eu cytundeb masnachu. Dylai'r arfarniadau gael eu cynnal gan yr Ymddiriedolaeth Garbon.

**Ymateb:** Gwrthod

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn gwrthod yr argymhelliad hwn oherwydd ei fod yn seiliedig ar gamddealltwriaeth o ddarpariaethau Atodlen 4 y Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd. Y ddarpariaeth o dan Adran 50 y Ddeddf yw fod Atodlen 4 yn rhoi pwerau "i ofyn am wybodaeth at ddibenion galluogi *cynllun masnachu* i gael ei sefydlu", ac at y dibenion hynny'n unig y gellir gweithredu'r pwerau yn Atodlen 4. Ni ellir eu gweithredu i ofyn am ddarparu gwybodaeth at ddibenion llunio mannau cychwyn ar gyfer *cytundebau masnachu.*

Mae darpariaethau'r Ddeddf yn galluogi Gweinidogion Cymru, Llywodraeth y DU a gweinyddiaethau datganoledig eraill ei gwneud yn ofynnol darparu gwybodaeth benodol at ddibenion galluogi cynllun masnachu i gael ei sefydlu ond nid yw'n darparu pŵer cyffredinol i'w gwneud yn ofynnol cynnal arfarniadau carbon.

Mae'r wybodaeth y gallai Gweinidogion Cymru ofyn amdani wedi'i gosod allan ym mharagraff 3 o Atodlen 4. Nid yw arfarniadau carbon wedi'u rhestru yn y paragraff hwnnw ac ni allai fod yn ofynnol, felly, i gyfranogwyr posibl mewn cynlluniau masnachu ddarparu arfarniadau carbon dan Atodlen 4 o Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd 2008.

Byddem yn annog busnesau a chyrff yn y sector cyhoeddus i gynnal asesiad o'r effaith a gaiff eu gweithgarwch o safbwynt carbon. Yr ydym yn ariannu'r Ymddiriedolaeth Garbon yng Nghymru i gefnogi busnesau i gynnal y math hwn o asesiad.

Yr ydym hefyd yn gweithio gyda Llywodraeth y DU ar weithrediad adran 85 y Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd sy'n ymdrin â chwmnïau'n adrodd ar allyriadau.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim, oherwydd bod yr argymhelliad yn cael ei wrthod.

### *Argymhelliad 8*

Dyma argymhelliad y Pwyllgor:

8. Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru sefydlu Siop Un Stop ar gyfer gwybodaeth a chyngor ar leihau allyriadau carbon. Dylai’r siop un stop chwarae rhan weithredol yn gwaith o godi ymwybyddiaeth o faterion sy’n ymwneud â lleihau allyriadau carbon a rhoi cymorth a chyngor i bob sector busnes.

**Ymateb:** Derbyn

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn derbyn yr argymhelliad hwn. Lansiwyd gwasanaeth cynghori Cymorth Hyblyg i Fusnes (FS4B) ar 1 Mai ac mae’n cynnig arweiniad perthnasol a rhwydd i’w ddilyn ynghylch yr amgylchedd a chynaliadwyedd sydd ar gael drwy adran arbennig ar wefan FS4B sef, www.business-support-wales.gov.uk/environment a thrwy linell gynghori FS4B, 03000 6 03000.

Trwy’r llinell gynghori, caiff pob busnes ei gyfeirio at Reolwr Perthynas a fydd yn canfod eu hanghenion o ran cefnogaeth ac yn cyfeirio’r sawl sy’n galw at y rhan fwyaf priodol o’r isadeiledd cefnogi. Ei nod yw cyfeirio pob busnes at y gefnogaeth gywir i’w helpu i fynd i’r afael â materion mewn perthynas â’r amgylchedd a chynaliadwyedd a diwallu anghenion busnes.

Bydd FS4B yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd yn caniatáu i gwmnïau ledled Cymru gael mynediad at y wybodaeth orau bosibl am arferion busnes cynaliadwy a chost-effeithiol, a bydd yn cyfrannu tuag at ddyheadau Cymru am economi cynaliadwy a charbon-isel.

Bydd yr Ymddiriedolaeth Garbon yn parhau i ddarparu cefnogaeth bwrpasol ac arbenigol mewn perthynas â lleihau allyriadau.

**Goblygiadau Ariannol** – Gellir defnyddio cyllidebau presennol ar gyfer unrhyw gostau ychwanegol.

### *Argymhelliad 9*

Dyma argymhelliad y Pwyllgor:

9. Dylai gwybodaeth glir a chywir fod ar gael i fusnesau drwy’r Ymddiriedolaeth Garbon (nes y caiff y corff a gaiff ei argymell yn argymhelliad 8 ei sefydlu) ar y swyddogaethau gwahanol a’r cyfleoedd ariannu a ddarperir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, Llywodraeth y DU a’r UE.

**Ymateb:** Derbyn mewn egwyddor

Derbyniaf yr argymhelliad hwn mewn egwyddor. Bydd cyngor ynghylch swyddogaethau a chyfrifoldebau a chyfleoedd ariannu ar gael drwy’r gwasanaeth cynghori Cymorth Hyblyg i Fusnes (FS4B) a’r Ymddiriedolaeth Garbon.

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn gweithio gyda'r Ymddiriedolaeth Garbon a'r Ymddiriedolaeth Arbed Ynni i gynyddu'r cyfleoedd ariannu sydd ar gael i fusnesau yng Nghymru i wella effeithlonrwydd ynni, drwy sicrhau y caiff cleientiaid eu cyfeirio'n gywir at y corff ymgynghori mwyaf priodol.

Bydd cyswllt cadarn rhwng yr Ymddiriedolaeth Garbon ac FS4B. Mae parhad eu swyddogaeth fel darparwr cyngor a gwybodaeth arbenigol i fusnesau wedi'i nodi yn argymhelliad 8.

**Goblygiadau Ariannol** – Gellir defnyddio cyllidebau presennol ar gyfer unrhyw gostau ychwanegol.

***Argymhelliad 10***

Dyma argymhelliad y Pwyllgor:

10. Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru weithio gyda Llywodraeth y DU ac asiantaethau eraill i sicrhau y caiff unrhyw systemau mesur, meincnodi ac adrodd yn ôl ar gyfer bodloni gofynion lleihau allyriadau carbon yng Nghymru a'r DU eu cofnodi a'u hadrodd yn ôl arnynt yn yr un modd.

**Ymateb:** Derbyn

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn derbyn yr argymhelliad hwn ac yn gweithio gyda Llywodraeth y DU ar weithredu adran 83 y Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd ar adrodd ar allyriadau gan sefydliadau.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim, nid oes unrhyw oblygiadau ariannol ynghlwm wrth yr argymhelliad hwn.

***Argymhelliad 11***

Dyma argymhelliad y Pwyllgor:

11. Bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn adolygu polisïau eraill sy'n effeithio ar ddatblygu economaidd a lleihau allyriadau carbon (e.e. polisïau cynllunio) gyda'r nod o'u gwneud yn gydnaws â pholisïau economaidd diwygiedig.

**Ymateb:** Derbyn mewn egwyddor

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn derbyn yr argymhelliad hwn mewn egwyddor.

Yr ydym yn y broses o integreiddio gweithrediad datblygu cynaliadwy a newid yn yr hinsawdd ar draws gwaith yr Adran Economi a Thrafnidiaeth a thrwy weithgarwch datblygu economaidd ehangach Llywodraeth y Cynulliad drwy'r

Strategaeth Swyddi Gwyrdd, FS4B - Yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd a 'Creu Mannau Cynaliadwy'.

Mae polisi cynllunio wedi'i integreiddio'n llawn gyda chamau gweithredu datblygu cynaliadwy a newid yn yr hinsawdd. Y nod yw sicrhau y lleolir datblygiadau datblygu economaidd arfaethedig mewn lleoliadau cynaliadwy sy'n lleihau'r angen i deithio a bod adeiladau masnachol a diwydiannol newydd yn cyflawni gostyngiad o 25% o leiaf mewn allyriadau carbon.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim, nid oes unrhyw oblygiadau ariannol ynghlwm wrth yr argymhelliad hwn.

***Argymhelliad 12***

Dyma argymhelliad y Pwyllgor:

12. Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru sicrhau y caiff arfer da wrth gaffael ei rannu drwy'r fenter Gwerth Cymru ac y dylai annog busnesau bach, canolig a mawr i ryngweithio a rhannu syniadau.

**Ymateb:** Derbyn

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn derbyn yr argymhelliad hwn. Mae Gwerth Cymru yn gweithio gyda phob rhan o'r Sector Cyhoeddus yng Nghymru i wella arferion caffael yn gyffredinol ac, yn benodol, i hyrwyddo'r cam o sefydlu egwyddorion datblygu cynaliadwy mewn penderfyniadau pwrcasu drwy ddefnyddio'r templed Asesiad Risg Cynaliadwyedd (SRA).

Mae Gwerth Cymru hefyd yn gweithio gyda'r Adran Economi a Thrafnidiaeth i hyrwyddo ymgysylltiad â Busnesau Bach a Chanolig eu Maint yng Nghymru drwy " Agor Drysau: Y Siarter ar gyfer Caffael sy'n Gyfeillgar i Fusnesau Bach a Chanolig".

**Goblygiadau Ariannol** – Gellir defnyddio cyllidebau presennol ar gyfer unrhyw gostau ychwanegol.

## Lleihau allyriadau carbon gan gyrff cyhoeddus

***Argymhelliad 13***

Dyma argymhelliad y Pwyllgor:

13. Bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cydweithio â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) i sicrhau bod awdurdodau lleol Cymru yn cyflawni eu rôl fel arweinwyr ym maes lleihau allyriadau carbon.

**Ymateb:** Derbyn

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn derbyn yr argymhelliad hwn. Mae gweithio gydag awdurdodau lleol a chyda CLlLC i ddynodi ym mha ffordd y gall Llywodraeth y Cynulliad gefnogi camau gweithredu gan awdurdodau lleol i leihau allyriadau carbon yn flaenoriaeth ar gyfer y flwyddyn i ddod.

**Goblygiadau Ariannol** – Gellir cynnwys unrhyw gostau o fewn cyllidebau presennol.

***Argymhelliad 14***

Dyma argymhelliad y Pwyllgor:

14. Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gyhoeddi arweiniad i awdurdodau lleol ar y ffordd y gallai fod yn bosibl cyrraedd y targedau yn y Dangosydd Perfformiad Effeithlonrwydd Ynni.

**Ymateb:** Derbyn mewn egwyddor

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn derbyn yr argymhelliad hwn mewn egwyddor.

Bydd Llywodraeth y Cynulliad hefyd yn datblygu arweiniad wedi'i ddiweddaru drwy'r Adroddiad Mesurau Newid yn yr Hinsawdd y darperir ar ei gyfer yn Adran 81 Deddf Newid yn yr Hinsawdd 2008.

Ar hyn o bryd, ceir dau ddangosydd awdurdod lleol sy'n ymwneud ag effeithlonrwydd ynni ond nid yw'r rhain yn cynnwys targedau.

Mae EEF/001a yn mesur y newid o ran canran mewn allyriadau carbon deuocsid yn y stoc annomestig (h.y. adeiladau'r awdurdodau lleol eu hunain). Mae Llywodraeth y Cynulliad yn ystyried adolygu'r fethodoleg sy'n gysylltiedig â'r dangosydd hwn er mwyn gallu creu cyswllt, ac adrodd ochr yn ochr, â'r Strategaeth Newid yn yr Hinsawdd.

Mae EEF/001b yn mesur y newid o ran canran yn y defnydd o ynni ac allyriadau carbon deuocsid yn y stoc tai (yr holl dai yn ardal yr awdurdod lleol). Mae Llywodraeth y Cynulliad yn ymgynghori, ar hyn o bryd, ynghylch cynnig i ddiddymu Deddf Arbed Ynni yn y Cartref (HECA) fel rhan o'r ymgynghoriad ar y Cynllun Cenedlaethol ar gyfer Effeithlonrwydd ac Arbedion Ynni. Mae EEF/001b wedi'i gysylltu â HECA a byddai'n rhaid i ni adolygu priodoldeb y dangosydd hwn yng ngoleuni unrhyw newidiadau a wnaed yn dilyn yr ymgynghoriad hwnnw.

Ar lefel ehangach, mae Llywodraeth y Cynulliad yn ystyried rôl awdurdodau lleol i leihau allyriadau fel rhan o'n gwaith ar y Strategaeth Newid yn yr Hinsawdd.

**Goblygiadau Ariannol** – Mân-gostau i'w cynnwys o fewn y cyllidebau presennol

***Argymhelliad 15***

Dyma argymhelliad y Pwyllgor:

15. Dylai Llywodraeth y Cynulliad ystyried cyflwyno'r cymorth a roddir ar hyn o bryd i bob awdurdod lleol er mwyn datblygu strategaethau ynni.

**Ymateb:** Derbyn mewn egwyddor

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn derbyn yr argymhelliad hwn mewn egwyddor.

Yr ydym yn ystyried y cymorth a gynigir i awdurdodau lleol i hyrwyddo camau gweithredu i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd fel rhan o'r gwaith o ddatblygu'r Strategaeth Newid yn yr Hinsawdd.

Nid ydym yn bwriadu ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ddatblygu strategaethau ynni.

**Goblygiadau Ariannol** – I'w hystyried fel rhan o'r gwaith o ddatblygu unrhyw becyn cymorth.

***Argymhelliad 16***

Dyma argymhelliad y Pwyllgor:

16. Dylai'r dangosydd perfformiad newydd ar gyfer defnyddio ynni gael ei gynnwys yn y Gyfres Reoli Asedion Craidd o ddangosyddion er mwyn sicrhau bod y cysylltiadau'n cael eu gwneud rhwng rheoli ystadau llywodraeth leol a lleihau allyriadau carbon.

**Ymateb:** Gwrthod

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn gwrthod yr argymhelliad hwn.

Nid oes dangosydd perfformiad ar ddefnyddio ynni yng nghyfres rheoli asedion Fframwaith Mesur Perfformiad llywodraeth leol.

Yn dilyn treialu dangosydd o'r fath yn 2007-8, datgelwyd bod y costau o gasglu'r wybodaeth yn sylweddol iawn a bod anawsterau'n codi o ran pa mor ddibynadwy yw cymharu data rhwng awdurdodau lleol.

Mae'r Fframwaith yn parhau i'w gwneud yn ofynnol casglu ac adrodd ynghylch data ar allyriadau carbon yn gyffredinol o adeiladau cyhoeddus, a'r defnydd a wneir o ynni ynddynt.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim, oherwydd bod yr argymhelliad yn cael ei wrthod.

***Argymhelliad 17***

Dyma argymhelliad y Pwyllgor:

17. Bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn nodi'n fuan pa awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus fydd yn rhan o'r Ymrwymiad i Leihau Carbon a'i bod yn gweithio gyda'r sefydliadau hynny i sicrhau bod ganddynt ddigon o arbenigedd ac adnoddau i ddiwallu anghenion y cynllun.

**Ymateb:** Derbyn mewn egwyddor

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn derbyn ar argymhelliad hwn mewn egwyddor.

Mae'r Ymrwymiad i Leihau Carbon (CRC) yn gynllun masnachu allyriadau ledled y DU a fydd yn dechrau yn 2010.

Yr ydym wedi bod yn cysylltu eisoes â CLlLC i sefydlu pa awdurdodau lleol yng Nghymru a fyddai'n dod o dan y cynllun a chynhaliodd CLlLC Gynhadledd Newid yn yr Hinsawdd ym mis Medi 2008 a oedd yn cynnwys sesiwn ar y CRC.

Mae Deddf Newid yn yr Hinsawdd 2008 yn cynnwys pwerau i gael gwybodaeth gan gwmnïau ynni i roi darlun cliriach o'r sefydliadau a fydd yn gymwys ar gyfer y CRC. Gan fod y darpariaethau perthnasol mewn grym, erbyn hyn, mae'r wybodaeth honno wedi'i sicrhau ac yn cael ei hadolygu.

Fel rhan o'r strategaeth gyfathrebu ar gyfer y CRC, mae awdurdodau lleol yng Nghymru wedi derbyn gwybodaeth reolaidd i'w diweddaru ar weithrediad y cynllun a chawsant wahoddiad i fynychu gweithdy CRC ym mis Medi 2007.

Ysgrifennodd y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai at Brif Weithredwr pob awdurdod lleol yng Nghymru ym mis Gorffennaf 2008 i ddweud wrthynt am y cynllun ac mae'n fwriad ysgrifennu atynt eto cyn bo hir.

Cafodd cyrff a busnesau y sector cyhoeddus a allai fod yn gymwys ar gyfer y Cynllun eu gwahodd i gymryd rhan mewn prif weithdy yng Nghaerdydd ar 29 Ebrill 2009. Yno, cyflwynwyd gwybodaeth bellach i ddarpar gyfranogwyr am y broses o gymryd rhan yn y cynllun.

Mae is-grwp o'r Rhwydwaith Cyfarwyddwyr Cyllid Cymru-gyfan, sy'n cynrychioli amrywiaeth eang o fudiadau'r sector cyhoeddus gan gynnwys awdurdodau lleol a'r GIG, yn cael ei sefydlu i ystyried sut y mae modd ymwreiddio newid yn yr hinsawdd mewn sefydliadau. Y bwriad yw fod y grwp, yn y lle cyntaf, yn canolbwyntio ar faterion sy'n ymwneud â gweithredu'r Ymrwymiad i Leihau Carbon.

Mae'r Ymddiriedolaeth Garbon wedi bod yn gweithio i sicrhau fod yr holl awdurdodau lleol yng Nghymru wedi bod drwy'r rhaglen rheoli carbon gan eu gosod mewn sefyllfa dda i gydymffurfio â'r CRC.

**Goblygiadau Ariannol** – Gweithio gydag awdurdodau lleol a chyrff y sector cyhoeddus i sicrhau eu bod yn deall gofynion y CRC a bod modd cynnwys yr hyn y mae angen iddynt eu wneud o fewn cyllidebau presennol. Bydd gan Asiantaeth yr Amgylchedd a’r Ymddiriedolaeth Garbon rôl bwysig i’w chwarae.